**Senedd Cymru**
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
**Ymchwiliad:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
**Ymateb gan:** Chwaraeon Cymru

-

**Welsh Parliament**
**Equality and Social Justice Committee**
**Inquiry:** Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
**Evidence from:** Sports Wales

# Ymgynghoriad y Pwyllgor ESJ – Ymateb Chwaraeon Cymru

## Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd.

## Craffu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

sportwales
chwaraeoncymru

# 1. Ymateb Chwaraeon Cymru

## Cefndir:

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ar lefelau cymunedol ac elitaidd. Rydym yn cael ein hariannu drwy gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Ni yw'r prif gynghorydd ar faterion chwaraeon i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gyfrifol am ddosbarthu cyllid y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Chwaraeon Cymru yw un o'r cyrff cyhoeddus lleiaf yng Nghymru ac mae ein cyllideb yn cynnwys costau rhedeg, arian grant ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol, partneriaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol i ddarparu chwaraeon, ond hefyd chwaraeon cymunedol - buddsoddi a chynyddu cyfleoedd lleol i glybiau a chymdeithasau wasanaethu anghenion eu cymunedau lleol.

Rydym yn un o'r 56 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); rydym yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg ac mae ein lle yng nghymdeithas a diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant ac yn cyflawni ein holl waith drwy lens cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod a rhoi'r gorau y gallwn ei gynnig i bawb ar hyd y llwybr chwaraeon, o blant sy'n dechrau arni i athletwyr sy'n ennill medalau, i lwybr gyrfa amrywiol yn y sector chwaraeon, i bobl hŷn yn cadw'n heini, yn iach ac yn annibynnol.

## Trosolwg

Mae Chwaraeon Cymru eisiau galluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu fel bod pawb yn gallu bod yn actif a chael mwynhad gydol oes o chwaraeon. Fel corff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus, mae gennym gyfrifoldeb i ddeall anghenion ac amgylchiadau pawb sydd eisiau cymryd rhan mewn chwaraeon, dim ots beth yw eu hamgylchiadau.

Rydym eisiau i chwaraeon fod yn amrywiol ac yn gynhwysol fel bod pawb yn gallu teimlo'n hyderus a mwynhau'r holl fuddion mae chwaraeon yn eu cynnig.

Fel corff cyhoeddus, mae'n orfodol i ni gadw at ddyletswyddau cyhoeddus, sy'n golygu bod rhaid i ni ystyried a dangos sut gallwn gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal, yn decach, yn gynaliadwy ac yn llewyrchus, sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ogystal â bod â dyletswydd tuag at y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, mae ein cyfrifoldebau'n ymestyn i sut rydym yn cyflogi ac yn gofalu am ein staff.

Er bod yr ymateb hwn yn eang ei gwmpas, bydd yn cyffwrdd â chylch gorchwyl allweddol yr ymchwiliad:

- i ba raddau mae'r amcan sydd wedi'i fwriadu gan y Ddeddf yn cael ei gyflawni;

- unrhyw gamau y dylid eu cymryd i wella effeithiolrwydd y Ddeddf a'i gweithredu, gan gynnwys unrhyw faterion drafftio penodol;
- a yw'r gofynion adolygu ac adrodd o dan y Ddeddf yn cael eu bodloni;
- effeithiolrwydd y canllawiau sydd wedi'u llunio o dan y Ddeddf;
- i ba raddau mae'r Ddeddf wedi bod yn gyfreithiol rwymol ac yn orfodadwy; ac
- i ba raddau mae'r Ddeddf wedi cynrychioli, ac y bydd yn parhau i gynrychioli, gwerth am arian.

## Cefndir Chwaraeon Cymru a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn datgan ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith dymor hir eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn nodi 7 nod cenedlaethol. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos sut byddant yn cyfrannu at y nodau drwy amcanion clir. Mae bwriadau strategol Chwaraeon Cymru wedi cael eu datblygu i weithredu hefyd fel ein nodau Llesiant.

Mae Chwaraeon Cymru yn credu y dylai fod yn ofynnol i bawb mewn bywyd cyhoeddus gefnogi cyfathrebu gwella lles pobl Cymru, a bod angen negeseuon clir, cyson a syml i gyfathrebu'r Ddeddf i'r cyhoedd a thu hwnt.

Fel sefydliad rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r Ddeddf ac yn uchelgeisiol i gefnogi a gweithio gyda gwaith a fydd o fudd cadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i gydweithredu'n effeithiol, a sicrhau nad ydym yn dyblygu gwaith.

Rydym wedi datgan ein Nodau Llesiant fel rhan o'n strategaeth wedi'i hadnewyddu a'r sgwrs genedlaethol am chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn 2018/19. Y datganiadau Bwriad Strategol yw craidd ein strategaeth ac fe'u hysgrifennwyd i gyflawni'r rôl ddeuol fel ein Nodau Llesiant a'n datganiadau Bwriad Strategol a bob blwyddyn yn ein hadroddiad blynyddol integredig rydym yn asesu a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol ai peidio.

Bwriad y broses hon oedd sicrhau bod y nodau'n dod yn rhan o'n DNA ni; yn rhan o bopeth rydym yn ei wneud. Wrth ddatblygu ein strategaeth a'n gweledigaeth, aethom ati i ddefnyddio'r Ddeddf i sicrhau ein bod yn defnyddio Nodau Llesiant ym mhob proses gwneud penderfyniadau lefel uchel, fel yn ein Papurau Bwrdd.

Yn Chwaraeon Cymru, rydym yn hoffi arwain drwy esiampl, ac rydym yn archwilio'n ymarferol sut i ymateb yn effeithiol i'r annisgwyl a pharhau i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae rhan o hyn yn golygu symud i ddull sy'n defnyddio naratif o weithredu, ac adlewyrchu i ddysgu o'n profiadau a defnyddio gwybodaeth a

thystiolaeth i ddeall y cyd-destun y mae digwyddiadau'n digwydd ynddo. Rydym yn ystyried ein hunain fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan wybodaeth. Credwn fod llawer o werth mewn rhannu ein dysgu a gweithio gydag eraill i ymgorffori'r dull hwn.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu'r fframwaith y gallwn weithio ynddo gydag agweddau arloesol at newid a chynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Comisiynydd yn argymell defnyddio gwahanol fframweithiau sy'n ein hannog i feddwl am yr hyn nad yw'n gynaliadwy mwyach a'r hyn y gellir ei ffrwyno i ddarparu atebion ar gyfer y dyfodol. Drwy ein hagwedd at fuddsoddi, rydym wedi mabwysiadu dull tymor hir o atal anghydraddoldebau rhag gwaethygu, yn ogystal â mynd i'r afael â hwy, ac rydym yn gweithio gyda'r sector chwaraeon i'w huwchsgilio a modelu newid tymor hir.

## Sut rydym yn defnyddio'r Ddeddf yn ymarferol:

O ran penderfyniadau ariannol a buddsoddi, mae Chwaraeon Cymru yn sicrhau bod y ddeddf bob amser yn ganolog yn ei benderfyniadau. Er bod heriau amlwg i'r sector dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym bob amser wedi ymdrechu i weithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn llawn yn ein penderfyniadau cyllideb, cynllunio a buddsoddi.

### Penderfyniadau Buddsoddi

Mewn ymateb i gyflwyno strategaeth newydd, datblygodd Chwaraeon Cymru fodel buddsoddi newydd. Roedd y model hwn yn cael ei yrru'n sylfaenol gan egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r model yn defnyddio egwyddorion cynnwys, atal a'r tymor hir yn benodol.

Mae'r model buddsoddi newydd yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau, yn bennaf o Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Mae data ynghylch pa weithgareddau chwaraeon y mae'r cyhoedd yng Nghymru, ac yn bennaf plant a phobl ifanc, yn eu gwneud, ac yn dymuno eu gwneud, bellach yn llywio'r ffocws ar gyfer ein buddsoddiad. Y chwaraeon sydd fwyaf perthnasol i'r cyhoedd sy'n cael y lefelau uchaf o gyllid ac rydym yn gweithio gyda'r rhai nad ydynt eto'n gallu derbyn arian cyhoeddus, oherwydd strwythurau llywodraethu heb eu datblygu'n ddigonol, i roi'r gofynion angenrheidiol ar waith i'w codi i 'allu'. Roedd hwn yn ddewis gweithredol i adlewyrchu'r egwyddorion cydweithredu a chyd-greu o fewn y Ddeddf, gan roi llais a dyheadau cyhoedd Cymru wrth galon dosbarthu ariannol y sefydliad.

Yn ogystal, gan gydnabod ffocws y Ddeddf ar gynnwys a chydweithredu, mae'r model buddsoddi hefyd yn pwysoli'r data yma yn ôl demograffeg benodol yn ôl hil, rhywedd, anabledd ac amddifadedd. Unwaith eto, ysgogwyd y ffocws hwn gan y dull o ddefnyddio dull cenedlaethau'r dyfodol o wella'r broses o wneud penderfyniadau sy'n sicrhau bod cyllid Chwaraeon Cymru yn cyd-fynd â'r hyn y mae plant a phobl ifanc, ar draws ystod o ddemograffeg heb gynrychiolaeth ddigonol, yn dymuno ei weld.

Mae manylion llawn am fodel buddsoddi Chwaraeon Cymru i'w gweld yma.

### Cynllunio Ariannol:

Rydym wedi nodi rhai o'r meysydd allweddol rydym wedi gweithio arnynt yn ystod ein proses cynllunio cyllideb isod, sy'n ymwneud â'r 7 nod llesiant a'r ffyrdd o weithio.

- **Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**

Mae Chwaraeon Cymru yn cyllido'r Athrofa Chwaraeon drwy gyllid loteri pwrpasol. Mae hyn yn cefnogi athletwyr elitaidd, gan gynnwys y rhai sy'n cystadlu ar lefel ryngwladol. Gan adeiladu ar lwyddiant blaenorol, bydd rhaglen gyfalaf Chwaraeon Cymru hefyd yn cynnwys dyraniad i gefnogi cyfleusterau chwaraeon gyda mesurau arbed ynni, a fydd yn cyflawni gostyngiadau carbon ac arbedion cost ariannol.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu**

Mae Chwaraeon Cymru yn cyfeirio cyllid at bartneriaid a chymunedau i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Nod y cyllid yw annog cyfranogiad ar bob lefel a sicrhau'r profiadau gorau i gyfranogwyr.

- **Cymru sy'n fwy cyfartal**

Mae partneriaid Chwaraeon Cymru yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau penodol, gan gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig, fel yr Urdd, Street Games a'r Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon. Ochr yn ochr â Chynghorau Chwaraeon y gwledydd cartref eraill, fe wnaethom gyllido'r Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar Ferched mewn Chwaraeon i gynnal yr Ysgrifenyddiaeth yn y DU ar gyfer 2022-26. Rydym yn awyddus i wella gallu merched i gymryd rhan mewn chwaraeon.

Nod y partneriaethau hyn yw annog cynhwysiant ac amrywiaeth cyfranogiad. Gweithredwyd y model buddsoddi newydd hwn yn 2023-24 fesul cam. Mae cynnwys pwysoli cadarnhaol ar gyfer anabledd, hil, rhywedd ac amddifadedd yn y meini prawf dyrannu yn golygu bod unigolion sydd â'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cael eu heffeithio'n gadarnhaol gan y model hwn.

Er bod y gyllideb gyffredinol a drosglwyddir i sefydliadau partner wedi lleihau yn y gorffennol oherwydd toriadau, mae egwyddorion ac integriti'r model buddsoddi wedi cael eu cynnal. O ganlyniad, bydd y canlyniad a ddymunir yn parhau i yrru'r buddsoddiad, ond ar gyflymder arafach oherwydd y gostyngiad yn y gyllideb.

- **Cymru lewyrchus**

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i fod yn gyflogwr mawr ar staff ac yn darparu cyfleoedd hyfforddi i staff ledled y sefydliad. Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi ymrwymo i sicrhau'r cyfleoedd prentisiaeth gorau posib, gan gyflogi dau brentis digidol a myfyriwr meistr yn yr Athrofa ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae ein hadroddiad 'Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad' diweddar a'r Adroddiad Gwerth Economaidd a gyhoeddwyd yn flaenorol yn dangos sut mae chwaraeon yn parhau i gyfrannu at Gymru lewyrchus

- **Cymru gydnerth**

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i wneud cynnydd gyda'r cynllun cynaliadwyedd amgylcheddol gan sbarduno camau gweithredu i ymgorffori cynaliadwyedd a bioamrywiaeth ym mhopeth rydym yn ei wneud ac i gefnogi'r sector chwaraeon ehangach i wneud cynnydd mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

- **Cymru iachach**

Bydd cyllidebau Chwaraeon Cymru yn cyfrannu at y Weledigaeth gyffredinol ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru ac yn cynyddu cyfleoedd i roi mwynhad gydol oes o chwaraeon i bawb, gan wella lles corfforol a meddyliol.

- **Cymru o gymunedau cydlynus**

Mae Chwaraeon Cymru yn dosbarthu cyllid sylweddol i gymunedau i alluogi chwaraeon a chyfranogiad i ffynnu ar lefel leol a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2025/26.

## Sut mae ein cynllunio ariannol yn cysylltu â'r ffyrdd o weithio?

- **Tymor Hir**

Er bod cyllidebau bob amser yn fyr eu tymor o ran natur, mae dyheadau'r hyn y mae Chwaraeon Cymru yn ceisio'i gyflawni drwy ei gyllid ar gyfer y tymor hir. Disgwylir i rai blaenoriaethau gael effaith fwy uniongyrchol, ond defnyddir adnoddau i ddarparu gwasanaethau chwaraeon cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cael ei ystyried mewn penderfyniadau buddsoddi ar gyfer cyfalaf a refeniw.

Er bod y cynnydd yng nghyllideb 2025/26 i’w groesawu, yn anochel fe wnaeth y gostyngiad yng nghyllideb 2024/25 arafu’r cynnydd i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. I bob pwrpas, roedd hwn yn benderfyniad tymor byr a beryglodd yr uchelgais tymor hwy. Bu'n rhaid i Chwaraeon Cymru liniaru'r effaith uniongyrchol ar bartneriaid drwy basio gostyngiad cyllideb cymedrol o 3.5%, ond roedd angen gwaith o hyd yn ystod 2024/25 i gefnogi gwydnwch ariannol parhaus y sector. Cynhwyswyd hyn hefyd fel prosiect o bwys yng Nghynllun Busnes Chwaraeon Cymru 2024-25.

- **Cydweithredu**

Bydd cydweithredu sylweddol yn parhau gyda phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Mae mecanweithiau rheoli perthnasoedd effeithiol eisoes ar waith i ddeall blaenoriaethau cyffredin gyda chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd y trafodaethau a'r camau gweithredu hyn. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cydweithredu â sectorau eraill ar feysydd diddordeb cyffredin, fel Pwysau Iach Cymru Iach, addysg a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd cyllideb ac adnoddau (dynol) pwrpasol ar gael hefyd ar gyfer y meysydd hyn.

- **Cynnwys**

Cyfranogiad sylweddol gan gymunedau ac ymgysylltu â hwy wrth gael mynediad at gyllid a thrwy brosiectau pwrpasol. Bydd Chwaraeon Cymru bob amser yn sicrhau, fel sefydliad, ein bod yn cael ein harwain gan angen a bod llu o gyfleoedd i bobl sydd â phrofiad byw gyfrannu at ein gwaith.

- **Atal**

Mae gan chwaraeon rôl arwyddocaol i'w chwarae yn yr agenda atal gan fod gweithgarwch corfforol yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd a lles gwell. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i feithrin perthnasoedd â chyrff eraill, yn enwedig Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gefnogi cyflawni agenda iechyd ataliol tymor hwy. Mae cefnogi Cymru Iachach hefyd yn flaenoriaeth yng nghynllun busnes Chwaraeon Cymru.

**Integreiddio**

Formatted: Normal, No bullets or numbering

Integreiddio da gyda chyrff cyhoeddus eraill o amgylch meysydd o ddiddordeb cyffredin fel iechyd, addysg a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd y cynllun busnes yn gwella'r rôl eiriolaeth, ac mae adnoddau pwrpasol yn eu lle ar gyfer hyn. Bydd cyflymu'r Partneriaethau Chwaraeon yn gwella lefel yr integreiddio ar lefel ranbarthol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth.

Hoffem adlewyrchu ar y ffaith bod ein dull buddsoddi yn cael ei yrru'n benodol gan ddull Cenedlaethau'r Dyfodol o weithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu fformiwla fuddsoddi newydd sy'n sicrhau bod y cyllid rydym yn ei ddosbarthu drwy ein rhwydwaith partneriaid yn cael ei lywio gan ddata.

Rydym yn defnyddio llais pobl Cymru yn weithredol wrth wneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael eu cyllido, i ba raddau ac i ba ddiben. Mae'r model cyllido'n defnyddio data o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, yn benodol yn ariannu cyfleoedd chwaraeon y mae plant a phobl ifanc yn eu gwneud ac yn dymuno eu gwneud. Yn ogystal, rydym yn pwysoli'r cyllid hwn yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, amddifadedd ac anabledd gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Rydym hefyd yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru, y cyfrifiad a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn ogystal â ffynonellau eraill. Gellir dod o hyd i fanylion llawn am y model yma.

Rydym yn credu'n angerddol mewn dull o weithredu sy'n caniatáu i genedlaethau'r dyfodol chwarae eu rhan wrth benderfynu sut mae ein buddsoddiadau'n cael eu gwneud, gan gynnwys eu llais yn y broses a chreu dull cydweithredol o weithredu gyda chynaliadwyedd y cynigion chwaraeon yng Nghymru. Dim ots beth yw'r heriau rydym yn eu hwynebu, bydd yr egwyddor hon yn parhau i fod wrth galon ein prosesau gwneud penderfyniadau.

# Atebolrwydd:

Fel rhan o'r gwaith i gynhyrchu ein Hadroddiad Blynyddol, rydym yn cynnal cylch adolygu gyda nifer o staff allweddol. Ystyriodd hyn y cynnydd a wnaethom yn y flwyddyn flaenorol tuag at ein nodau llesiant ac mae hefyd yn ystyried a ddylai'r nodau presennol aros yr un fath. Yn ddiweddar hefyd, mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio Gwiriwr Ffordd o Weithio'r Comisiynydd i gyflawni'r un rôl ar gyfer y 5 Ffordd o Weithio yn y Ddeddf. Mae'r ddwy broses wedi bod yn adnoddau defnyddiol i ystyried gwaith ar draws y sefydliad i helpu i ddathlu a rhannu cynnydd ac i feddwl am sut gallwn fynd ymhellach a beth fydd ei angen ar gyfer hynny. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio i gynyddu'r ymgysylltu yn y prosesau hyn ar draws y gweithlu cyfan.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd wedi elwa o gyswllt â'r Comisiynydd a'i staff. Mae cyswllt blaenorol i ofyn am wybodaeth neu gyngor ac adborth wedi bod yn fuddiol iawn, yn enwedig lle mae staff wedi bod yn newydd i swyddi neu brosiectau'n newydd neu'n gymhleth. Byddai'r cyfle i gysylltu â thîm y Comisiynydd yn y dyfodol yn cael ei werthfawrogi. Gallai cefnogaeth ac arweiniad ynghylch partneriaethau newydd a chymhlethach o gyrff cyhoeddus a hefyd gyda sefydliadau o'r sector masnachol neu wirfoddol fod yn rôl bwysig hefyd, a allai gael effaith sylweddol ar allu partneriaethau i ffynnu'n gyflymach neu osgoi argyfwng a methiant.

## Sut mae ein partneriaid yn gweithredu'r ddeddf?

Ochr yn ochr â'n rôl fel corff cyhoeddus sy'n gweithredu'r ddeddf, fe wnaethom siarad hefyd â nifer o'n partneriaid yn y sector er mwyn archwilio eu barn ar ddatblygiad y ddeddf dros y 10 mlynedd diwethaf.

Fe wnaethom archwilio sut aeth gwahanol bartneriaid ati i ymdrin â'r ddeddf a sicrhau ei bod yn ganolog i'w gwaith. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, fe wnaethom siarad â detholiad o Gyrff Rheoli Cenedlaethol, Partneriaid Cenedlaethol a Phartneriaethau Chwaraeon. Rydym yn credu, er mwyn i'r ddeddf gyflawni ei phrif ganlyniadau, ei bod yn hanfodol bod ein partneriaid yn dod gyda ni ar y siwrnai.

Er bod gan bob partner enghreifftiau o waith cadarnhaol a oedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r ddeddf, roedd hefyd yn bwysig nodi bod rhywfaint o drafod wedi bod ynghylch y cynnydd dros y 10 mlynedd diwethaf.

Cyffyrddir â'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn isod:

### Adborth Partneriaid:

Yma yn Chwaraeon Cymru, rydym yn gweithio ar y cyd â'n Partneriaid Cenedlaethol i'n helpu i drawsnewid Cymru yn Genedl Actif. Cenedl lle gall pawb (ac rydym yn golygu pawb) elwa o'r manteision gydol oes a chael mwynhad o gymryd rhan mewn Chwaraeon.

Mae ein Partneriaid Cenedlaethol yn hanfodol i strategaeth Chwaraeon Cymru. Gan weithio ar hyd a lled y wlad, mae eu rhwydweithiau helaeth yn ei gwneud yn haws cyrraedd cymunedau'n ehangach. Maent yn chwarae rhan annatod wrth ein helpu i gael gwared ar rwystrau a thrwy hynny wneud chwaraeon yn fwy cynhwysol fel bod pawb yn gallu mwynhau'r manteision.

Buom yn siarad â rhai o'n partneriaid i weld sut maent yn ymgysylltu â'r ddeddf – dyma rai o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'r sgyrsiau:

**1. Gwerth a Pherthnasedd y Ddeddf**

Roedd pob partner yn cefnogi'n gryf yr angen parhaus am y Ddeddf, gan nodi ei bod yn unigryw wrth orfodi meddwl yn y tymor hir a chynllunio cynaliadwy yn gyfreithiol.

Cafodd Cymru ei chydnabod fel arweinydd mewn deddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, gan ragori ledled y DU. Nododd sawl partner sut mae'r ddeddf yn dilysu eu gwaith.

**Mae'r Ddeddf yn dilysu ac yn atgyfnerthu ein gwaith. Mae'n rhoi iaith a phwrpas cyffredin i ni i ddod â phartneriaid at ei gilydd o amgylch atal, cynhwysiant a lles yn y tymor hir.**

Er gwaethaf cefnogaeth gyffredinol, roedd pryder dro ar ôl tro ynghylch cynnydd araf ac amlygrwydd cyfyngedig yr effaith dros y degawd diwethaf.

**2. Defnydd Ymarferol a Chyd-fynd Strategol**

Adroddodd sawl sefydliad eu bod wedi sicrhau bod eu strategaethau mewnol yn cyd-fynd â'r Ddeddf a manteision gwneud hyn.

Nododd un partner fod y ddeddf wedi bod yn sail i waith strategol a oedd wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol, gan nodi i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi cynrychioli, ac y bydd yn parhau i gynrychioli, gwerth am arian.

**'Mae llawer o lwyddiannau wedi bod i ni, o ran strategaeth, mae wedi ein helpu ni'n fawr... rydyn ni wedi gweld llwyddiant mawr gyda'n gwersylloedd preswyl lle mae rhywfaint o'r gwaith strategaeth wedi arwain aton ni'n dechrau defnyddio paneli solar, sydd, yn ei dro, wedi talu am holl ddefnydd trydan y gwesteion. Mae'n llwyddiant mawr i ni ac mae gennym ni nifer o enghreifftiau lle mae'r ddeddf wedi bod yn sail i rai o'n canlyniadau cadarnhaol'**

Yn wir, cytunodd sawl partner bod gallu defnyddio'r ddeddf wrth ddatblygu eu strategaethau eu hunain wedi arwain at gyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau'r llywodraeth.

**'Fe fuom yn gweithio ar ddrafftio ein strategaeth ac wedyn fe wnaethom ei chymharu â'r ddeddf cenedlaethau'r dyfodol o ran y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio. Roeddem eisiau cyd-fynd a nodi a oedd yr hyn roeddem yn bwriadu ei wneud fel sefydliad yn gyson â'r hyn yr oedd y llywodraeth eisiau i ni fod yn ei feddwl o ran y cyfeiriad hefyd. Mae wedi helpu gyda'r cyd-fynd.'**

Er bod llawer wedi canmol defnydd ymarferol y ddeddf, nododd llawer hefyd nad ydynt yn adrodd yn weithredol yn erbyn y Ddeddf nac yn mesur canlyniadau mewn ffordd systematig, a arweiniodd at drafodaethau pellach ynghylch atebolrwydd.

**3. Atebolrwydd a Thystiolaeth o Effaith**

Cwestiynodd rhai partneriaid y diffyg gwerthuso strwythuredig ac amlygrwydd, gan nodi absenoldeb tystiolaeth glir i ddangos sut mae sefydliadau'n elwa o'r Ddeddf neu'n cyfrannu ati.

Roedd teimlad cyffredin y gallai sefydliadau fod yn gweithio gan gadw at y Ddeddf ond nad ydynt yn cael eu dal yn atebol am ganlyniadau mesuradwy. Bu trafodaeth ehangach ar y rôl y gallai Chwaraeon Cymru ei chwarae yma - ond hefyd teimlad y dylai hyn fod yn gyfrifoldeb swyddfa'r comisiynydd. Ar bwynt atebolrwydd, nododd un partner:

**Er bod rhai sefydliadau wedi'u mandadu i gydweithredu ac adrodd ar gynaliadwyedd, gall y systemau presennol fod yn amwys ac yn anghyson, gan arwain at bartneriaethau symbolaidd yn hytrach na chydweithredu gwirioneddol.**

### 4. Rhoi Gwybod Am Heriau

Tynnodd partneriaid sylw hefyd at fecanweithiau adrodd amwys neu symbolaidd, fel bocsys ticio neu gwestiynau cynaliadwyedd penagored nad ydynt yn hyrwyddo adlewyrchu dwfn na gwelliant.

Roedd galw am well safoni mewn adrodd a disgwyliadau cliriach gan gyrff rheoli.

### 5. Rôl y Comisiynydd a'r Llywodraeth

Awgrymodd llawer o gyfranogwyr fod angen mwy o awdurdod ac adnoddau ar Swyddfa'r Comisiynydd i orfodi'r Ddeddf a chefnogi sefydliadau'n fwy effeithiol.

Nododd sawl siaradwr fod cefnogaeth gan y llywodraeth yn anghyson ac yn aml yn gadael sefydliadau'n ansicr ynghylch disgwyliadau.

Cytunwyd y byddai rôl y comisiynydd yn elwa o ysgogiadau ac adnoddau ychwanegol. Ond roedd hefyd yn bwysig nodi bod rhai partneriaid yn teimlo nad cyllid ychwanegol yn unig oedd y broblem:

**Nid mwy o arian yw'r hyn sydd ei angen o reidrwydd. Rydw i'n meddwl y gallwch chi barhau i daflu mwy o arian at swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol heb weld y manteision o reidrwydd. Rydw i'n meddwl bod rhai pethau sydd angen eu mireinio'n sicr. Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er enghraifft... ydi'r bobl briodol o'r sectorau priodol yn yr ystafell? Ai dim ond siop siarad arall ydyn nhw? Fe fyddwn i'n dadlau bod angen ei newid.**

### 6. Cydweithredu a Chyfrifoldeb y Sector

Yn aml, mae cydweithredu'n orfodol, ond yn ymarferol, gall ddod yn symbolaidd neu'n arwynebol.

Dylai cydweithredu gwirioneddol fod yn ystyrlon, gyda nodau a rennir ac atebolrwydd ar y cyd ar draws sectorau. Credid y gellid gweld datblygu partneriaethau chwaraeon o fewn y sector chwaraeon fel cyfle ar gyfer cydweithredu cyson, cyfrifoldeb cyson a chyfle i wir bwysleisio manteision a defnydd cadarnhaol y ddeddf.

## Partneriaethau Chwaraeon

**Cefndir:**
Mae Partneriaethau Chwaraeon yn anelu at newid y gêm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan drawsnewid y ffordd y mae chwaraeon cymunedol yn cael eu creu, eu cyflwyno, eu harwain a'u cyllido. Wedi'u cynllunio i oresgyn anghydraddoldebau parhaus ac ystyfnig mewn cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, bydd y partneriaethau hyn yn helpu i drawsnewid Cymru yn genedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon gydol oes ac maent wedi'u cysylltu'n

gywrain â'r Ddeddf. Mae creu'r partneriaethau chwaraeon yn ddiamau yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y Ddeddf.

Buom yn siarad â dwy o'n partneriaethau chwaraeon - y ddwy ar wahanol gamau o'u siwrneiau - i ddeall faint maent yn ymgysylltu â'r ddeddf.

## Actif North Wales

Actif North Wales yw'r bartneriaeth ranbarthol ar gyfer gweithgarwch corfforol a chwaraeon sy'n gweithio ar draws chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae ei nod yn glir: sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.

Maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda chymunedau, awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd, darparwyr tai, y sector gwirfoddol ac eraill i ddeall yr heriau bywyd real mae pobl yn eu hwynebu - yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, difreintiedig ac ynysig. Drwy wrando a gweithio mewn partneriaeth, maent yn gweithio i helpu i gefnogi cymunedau i lunio eu hatebion lleol eu hunain, gan greu cyfleoedd mwy cynhwysol a hygyrch i fod yn actif a lleihau'r anghydraddoldebau sy'n atal pobl rhag symud mwy.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i strategaeth a ffyrdd o weithio Actif North Wales. Fel yr eglurwyd gan eu Prif Swyddog Gweithredol:

***'Dydyn ni ddim yn ei drin fel 'ymarfer cydymffurfio', ond yn hytrach rydyn ni'n ei weld fel rhan o'n diwylliant, ein gwerthoedd, a'n dull tymor hir ni o weithredu yma yng Ngogledd Cymru.'***

Mae Actif North Wales wedi llunio ei strategaeth ranbarthol 10 mlynedd (2023–2033) o amgylch y pum ffordd o weithio sydd yn y Ddeddf, fel y gwelir isod:

- **Tymor Hir:**

Maent yn buddsoddi mewn newid system dros gyfnod o 10 mlynedd, gan ganolbwyntio ar newidiadau cynaliadwy, tymor hir yn y ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â gweithgarwch corfforol, chwaraeon a symud — yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu tlodi, anabledd, anghydraddoldeb neu eithrio.

- **Atal:**

Mae Actif North Wales yn symud y tu hwnt i gynnig / darparu gweithgareddau / cyfleoedd yn unig. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau i ddeall y rhwystrau maent yn eu hwynebu i fod yn actif, fel cost, trafnidiaeth, hyder neu ddiffyg gofod cynhwysol, fel ein bod yn gallu dod at ein gilydd fel system i'w cefnogi lle maent.

Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd rydym wedi cyflwyno gwasanaethau cofleidiol (e.e., trin traed ac awdioleg) i helpu pobl i deimlo'n barod a gallu ymuno â chyfleoedd lleol i fod yn actif.

- **Integreiddio:**

Maent yn cyd-fynd ag agendâu iechyd cyhoeddus, tlodi, hinsawdd a datblygu cymunedol ehangach. Mae ein gwaith yn cysylltu â chanlyniadau yn Pwysau Iach, Cymru Iach, y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, a Chynlluniau Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol.

- **Cydweithredu:**

Maent yn arwain cyngres ranbarthol o bartneriaid ar draws sectorau ac adrannau / timau o fewn llywodraeth leol, yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar y cyd a chyflawni ar y cyd. Mae

ein prosiectau profi a dysgu cyfredol yn cynnwys mentrau ar y cyd â'r bwrdd iechyd, addysg, awdurdodau lleol, Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, cymdeithasau tai cymdeithasol, Partneriaid Cenedlaethol, grwpiau cydraddoldeb a grwpiau cymunedol.

- **Cynnwys:**

Wrth galon eu dull o weithredu mae **Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau** - rhoi pobl leol i reoli - gan roi'r 'pŵer' iddynt.

Er enghraifft, maent yn cefnogi cymunedau i gyd-greu atebion drwy "deithiau cerdded darganfod" lleol, mapio sgil-effeithiau, ac ymgysylltu a chynllunio cyfranogol.

***Mae'r Ddeddf wedi ein helpu ni i symud y tu hwnt i'r safbwynt traddodiadol o "chwaraeon er mwyn chwaraeon" tuag at ddealltwriaeth ehangach o sut mae gweithgarwch corfforol a symud yn cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol ehangach - fel gwell iechyd, cymunedau cryfach, llai o unigrwydd, a gwell lles.***

***Mae'r newid hwn yn newid sut mae partneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gweld ac yn cefnogi gweithgarwch corfforol. Rydym bellach yn gweld enghreifftiau real o ymgysylltu gan sefydliadau nad oeddent yn gweld eu hunain fel rhai â rôl yn y maes hwn o'r blaen.***

Pwysleisiodd Actif North Wales sut mae'r ddeddf wedi eu galluogi i symud o fodel tymor byr, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau, i ddull sy'n seiliedig ar systemau cyfan ac sy'n canolbwyntio ar achosion sylfaenol anghydraddoldeb ac mae wedi tynnu sylw at sut mae'r pum ffordd o weithio yn cynnig fframwaith clir, sy'n seiliedig ar werthoedd, sydd wedi helpu i siapio ein diwylliant sefydliadol a'n partneriaethau.

Fodd bynnag, mae heriau'n parhau. Wrth dynnu sylw at lawer o fanteision y ddeddf, mae Actif North Wales yn cyfaddef, fel gyda phopeth, bod heriau wedi bod wrth weithredu'r ddeddf, sy'n cynnwys:

- **Anghysondeb wrth ei rhoi ar waith:**

Nid yw pob sector yn dehongli nac yn ymgorffori'r Ddeddf gyda'r un trylwyredd. Gall hyn arafu cynnydd, creu anghysondebau ar draws y rhanbarth a pheryglu dyblygu ymdrech / cyllid.

- **Gorfodadwyedd cyfyngedig:**

Heb atebolrwydd statudol na buddsoddiad pwrpasol sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Ddeddf, mae rhai cyrff cyhoeddus a llawer o gyllidwyr yn dal i ganolbwyntio ar allbynnau tymor byr yn hytrach na'r dulliau ataliol, cymhlethach, tymor hir ac 'anhrefnus' yn aml sy'n cael eu cydgynhyrchu.

- **Anawsterau gwerthuso:**

Mae'r adnoddau maent yn eu defnyddio (e.e. mapio sgil-effeithiau, mapio asedau, straeon newid) yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf, ond nid ydynt yn cael eu cydnabod bob amser mewn fframweithiau adrodd ar berfformiad traddodiadol. Mae tensiwn rhwng mesur yr hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n hawdd ei gyfrif.

- **Meithrin perthnasoedd ar lefel leol:**

Mae ein prosiectau peilot diweddar (yr ydym yn eu cynyddu nawr ar draws y rhanbarth) sydd wedi'u cyllido gan SPF wedi dangos y nod cyffredin sydd gennym ni gyda phartneriaid system eraill e.e. tai, gwasanaethau cefn gwlad, timau datblygu cymunedol. Yn cael eu harwain gan y gymuned ac yn canolbwyntio ar y rhai sydd angen ein cefnogaeth fwyaf, rydym wedi gweld y bydd cymunedau'n ymgysylltu - yn ddwfn ac yn greadigol - pan maent yn rhan o ddylunio'r ateb. Mae ymddiriedaeth wedi cynyddu, er na ellir cyflymu hyn, fel y mae perchnogaeth leol.

**Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru:**

Sefydlwyd Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru (PChGC) yn 2023. Yn 2024 penodwyd Jamie Rewbridge yn Brif Swyddog Gweithredol a Kate Williams yn Bennaeth Partneriaethau Strategol a Datblygu.
O'r herwydd, maent mewn sefyllfa wahanol i Actif North Wales sydd wedi bod yn gweithredu am gyfnod hirach o amser.
Fel y nodwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol, er bod y bartneriaeth yn gymharol newydd, mae'r Ddeddf eisoes wedi dangos gwerth clir:

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi siapio cyfeiriad ein sefydliad ni eisoes ac mae'n parhau i ddylanwadu ar ein gwaith... Mae'r Ddeddf wedi bod yn egwyddor arweiniol wrth ffurfio ein sefydliad - gan siapio ein herthyglau, ein pwrpas a'n llywodraethu. Mae'n ganolog i ddatblygiad ein strategaeth ranbarthol gyntaf ac yn llywio ein dull cydweithredol, system gyfan o weithredu. Mae'r dull hwn, sydd wedi magu traed ar ôl 2015, yn cyd-fynd â phwyslais y Ddeddf ar feddwl yn y tymor hir a gweithio'n integredig. Rydym yn gweld ei ddylanwad yn tyfu, nid yn unig o fewn ein sefydliad, ond ar draws y sector ehangach.**

Er eu bod yn nodi bod y Ddeddf ei hun yn llawn gweledigaeth ac yn gynhwysfawr, adleisiodd PChGC rai o safbwyntiau ein partneriaid eraill gan nodi y gall heriau godi wrth ei dehongli a'i gweithredu. Bod gan ei chwmpas eang y gallu i fod yn llethol, yn enwedig i gyrff cyhoeddus mwy fel awdurdodau lleol, gan ei gwneud yn anodd monitro cynnydd ar draws yr holl nodau. Nododd y bartneriaeth hefyd sut maent yn credu bod byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn faes i'w adolygu, a'u bod yn aml yn gallu arwain at lawer o sgyrsiau ond ychydig o weithredu.

**Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yn faes allweddol i'w adolygu... A ydynt yn rhy eang o ran cwmpas? A ydynt yn gweithredu ar y lefel briodl i sbarduno newid? Gallai mandad cliriach, gwell cefnogaeth, ac amcanion gyda mwy o ffocws wella eu heffaith. Byddai craffu ar eu perfformiad presennol a'u rôl yn y dyfodol yn fan cychwyn gwerthfawr ar gyfer gwella.**

Fel gyda phartneriaid eraill, roeddent yn cytuno bod gwaith y Comisiynydd yn amhrisiadwy ond y gallai fod angen mwy o adnoddau a dylanwad o fewn y swyddfa.

**Mae'r Comisiynydd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo'r Ddeddf a chefnogi ei gweithredu. Er mwyn bod yn wirioneddol effeithiol, mae angen adnoddau ac awdurdod digonol ar y rôl i ddylanwadu ar bolisi, arwain y ddarpariaeth, a sicrhau atebolrwydd. Dylai'r ffocws fod ar ysgogi arloesedd a gwerth ychwanegol - nid dim ond cymeradwyo gwaith presennol.**

# Crynodeb

Ers gweithredu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2015, mae'n amlwg ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar draws y sector. Mae llawer o'n partneriaid yn cymryd rhan weithredol, yn gweld y manteision niferus o weithredu'r ddeddf ac yn falch o fod yn arwain y maes yn y DU. Mae pobl yn ddiamau yn cefnogi'r ddeddf ond y neges sy'n dod drwodd yw bod mwy i'w wneud.

Er bod manteision a bwriadau'r ddeddf yn cael eu derbyn yn dda, mae cwestiynau'n codi, sut ydym ni'n gwneud sefydliadau'n fwy atebol? A ddylid rhoi mwy o bwerau i'r comisiynydd? A yw cyflymder y cyflawni wedi bod yn ddigonol dros y 10 mlynedd diwethaf?

O'n profiad ein hunain ac o siarad â'n partneriaid, mae'n ymddangos yn glir bod graddfa a chyflymder cyflawni'r Ddeddf yn dibynnu ar sefydliadau unigol yn deall y gofynion a osodir gan y Ddeddf, yn gefnogol i'w chyflawni a sut maent yn arwain gydag eraill. Lle mae gwaith wedi'i ymrwymo mewn partneriaeth, rhaid i bob corff cyhoeddus gytuno ar feysydd clir o waith cydweithredol ac allbynnau, a rhaid cymryd rhywfaint o berchnogaeth i sicrhau nad yw'r gwaith yn dod i ben yn ddiangen. Gallai tensiynau godi hefyd rhwng y rhai sy'n fwy tueddol o ddefnyddio dull dangosyddion perfformiad allweddol traddodiadol o weithredu a'r gwahanol ffyrdd o weithio y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu hannog.

Yn ogystal ag atebolrwydd cadarnach, gyda sefydliadau'n glir ynghylch yr hyn y maent wedi addo ei wneud a thryloywder clir ynghylch yr hyn a gyflawnwyd, mae angen newid diwylliant lle mae sefydliadau'n cael eu hannog i roi cynnig ar ffyrdd newydd o wneud pethau. Mae angen i'r diwylliant ganiatáu i staff arloesi heb ofni nad oes sicrwydd y bydd rhywbeth newydd yn llwyddo a darparu amgylchedd o ymddiriedaeth a diogelwch i alluogi staff i ddysgu o'r profiadau hyn. Ni all pob darn o waith neu raglen sicrhau canlyniad llwyddiannus, ond bydd bod yn hyblyg ac yn barod i gymryd risgiau pwyllog yn annog awyrgylch sy'n fwy ffafriol i gyflawni'r Ddeddf.

Rydym yn ymwybodol bod tueddiadau'r dyfodol yn faes blaenoriaeth i'r Comisiynydd. Mae defnyddio gwaith tueddiadau'r dyfodol i geisio deall pa newidiadau polisi y bydd eu hangen ar genedlaethau'r dyfodol yn ffordd ddefnyddiol o fapio gwasanaethau. Rydym wedi ysgrifennu dau adroddiad yn ystod y degawd diwethaf gyda'r nod o ymchwilio i dueddiadau o amgylch chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r hyn sydd ei angen ar genedlaethau'r dyfodol i wella cyfraddau gweithgarwch a mynediad at chwaraeon. Datblygwyd Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a'n Strategaeth hefyd gan ddefnyddio'r cysyniadau hyn. Mae gweithio ar draws sectorau i ddatblygu ein dealltwriaeth o dueddiadau iechyd a phoblogaeth o fewn y maes chwaraeon yn berthnasol i sectorau eraill.

Wrth greu ein strategaeth, fe wnaethom sicrhau bod ein Nodau Llesiant a'n Bwriadau Strategol yr un fath. O ganlyniad, mae ein dull cyfan o gyflawni strategaeth Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i'r Nodau Llesiant a bennwyd gennym. Mae'r dull hwn, a gefnogwyd gan swyddfa'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod dylunio ac ymgynghori, wedi helpu i ymgorffori'r Ddeddf yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd, a gallai eraill weld hyn yn ddefnyddiol i ystyried sut gellir sicrhau bod y ddau yn cyd-fynd.

Mae'n glir bod gallu corff cyhoeddus i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf yn dibynnu ar bawb o fewn y sefydliad. Fel y crybwyllwyd gennym yn flaenorol, mae caffael yn elfen allweddol o gynaliadwyedd; polisïau AD i leddfu tlodi neu anghydraddoldebau sydd wedi'u hymgorffori; y gallu i bartneriaid ar draws sefydliadau weithio ar y cyd er mwyn creu Cymru iachach, mae'r rhain i gyd a mwy yn hanfodol mewn deddfwriaeth sy'n cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Gallai person wedi'i enwi mewn cyrff cyhoeddus fod yn gyfrifol amdani, fel y mae'n rhaid cael ar gyfer y Ddyletswydd Cydraddoldeb Strategol a Safonau'r Gymraeg, ond mae mwy y gellid ei wneud i helpu holl gyflogeion unrhyw gorff i ddeall sut gallant fod yn rhan o weithredu'r Ddeddf.

Mewn rhai o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, mae bron i 2,000 o gyflogeion. Mae sut gall pob un o'r cyflogeion hynny fyw ac anadlu gwerthoedd dyfodol cynaliadwy i bawb yn gofyn am rywfaint o feddwl creadigol. Gall cysylltu'r Ddeddf â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth yng Nghymru, a all roi adnoddau i staff i ddeall a gweithredu'r Ddeddf yn well gyda hyder, fod yn un ffordd o wneud hyn.

Fel corff cyhoeddus sydd wedi ymrwymo'n gadarn i'r ddeddf, rydym yn croesawu'r ymchwiliad hwn ac yn edrych ymlaen at weld sut mae deddf cenedlaethau'r dyfodol yn parhau i chwarae rhan bwysig yng Nghymru, gan ein galluogi i gyflawni dros bobl nawr yn ogystal ag ymdrechu i wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol. Edrychwn ymlaen at weld sut mae'r ymchwiliad hwn yn datblygu.

Mae'r Ddeddf yn unigryw i Gymru ac yn ein gosod fel arweinydd byd-eang mewn datblygu cynaliadwy. Dylai wasanaethu fel y sylfaen ar gyfer holl weithgarwch y sector cyhoeddus, gan sicrhau bod strategaethau a chamau gweithredu'n cyd-fynd â nodau llesiant tymor hir. Mae dull Cenedlaethau'r Dyfodol o weithredu'n darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan helpu sefydliadau i gynnal ffocws, mesur cynnydd a pharhau i fod yn atebol - ar yr amod bod systemau meincnodi, monitro a gwerthuso cadarn yn eu lle. Mae'n rhoi llais y person ifanc yn flaenllaw mewn penderfyniadau. Mae'r dull yn gwneud cydweithredu'n hanfodol, pan gaiff ei ystyried yn aml fel rhywbeth braf i'w gael. Fodd bynnag, er mwyn cynnal ei pherthnasedd, rhaid adolygu'r Ddeddf yn rheolaidd a'i haddasu i adlewyrchu anghenion cymdeithasol sy'n esblygu.

Mae'r byd wedi newid yn sylweddol ers 2015, a rhaid i'r Ddeddf esblygu yn unol â hynny er mwyn parhau i fod yn effeithiol. Rydym yn credu ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir, ond mae angen cyflymu'r momentwm.

Mae Chwaraeon Cymru yn hyrwyddwr ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda syniadau blaenorol ar gyfer gweithio ymarferol gyda'r swyddfa, gan gynnwys cynnal ein dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol yn gyfredol; mabwysiadu'r Fframwaith Tair Gorwel a ddefnyddiodd y Comisiynydd blaenorol a oedd yn edrych ar gydweithio i uwchsgilio'r sector chwaraeon wrth fodelu newid tymor hir; ffrwyno lleisiau ac arbenigedd Llysgenhadon Ifanc yn rhagweithiol a hefyd dod yn sefydliad sy'n gyfeillgar i gymhlethdodau. Rydym hefyd bellach yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol integredig sy'n cynnwys yr holl waith rydym yn ei wneud i gyflawni ein dyletswyddau cenedlaethau'r dyfodol a'r ffyrdd o weithio ochr yn ochr â'n gofynion statudol eraill fel yr Iaith Gymraeg a'n hadrodd ar fioamrywiaeth a chynaliadwyedd.

Yn y pen draw, ein gweledigaeth yw Cymru lle mae pawb yn actif. O'r rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn dda mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau aur, rydym yn credu y gall pawb gael mwynhad oes o chwaraeon. Rydym eisiau i Gymru fod yn genedl actif gyda chymaint o bobl â phosibl wedi'u hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.